WG 365-5
15

# COFFADWRIAETH

AM Y

# Parch. DANIEL DAVIES

## GWEINIDOG YR ANNIBYNWYR

## YN ABERTEIFI,

A fu farw yn Ngwanwyn 1867, yn 86 oed, wedi bod yn y weinidogaeth dros 50 mlynedd.

---

CHWI grefyddwyr o bob enw,
Arnoch chwi yr wyf yn galw,
I ystyried yn ddifrifol,
Beth a ddaw o'r byd Crist'nogol.

Gwylwyr Seion gym'rir ymaith,
Cewri penaf pob cym'dogaeth ;
Gado'r praidd heb fugail buan
I'w galw o'r tiroedd pell i'r gorlan.

John Elias fawr ei enaid,
Gollodd corff y Methodistiaid,
Thomas Richards, Morgan Howell,
Oll a roed i'r pridd yn dawel.

X20530 7194

Y Bedyddwyr sy'n wylofus
Wedi colli Joseph Harris,
Christmas Evans gyd hyny,
A John Herring, Aberteifi.

Y Wesleyaid sydd mewn dychryn
Am y doniol Hughes Caerfyrddin,
Hughes o Dinbych, fugail esmwyth,
Hefyd Rowlands, Aberystwyth.

A'r Annibynwyr gollent wedin
Peter enwog o Gaerfyrddin,
Griffiths Hawen, Griffiths Horeb,
Er eu sel a'u mawr ffyddlondeb.

At y cewri hynod yna,
Gwaeda'r galon pan yn coffa
Am wr doeth, oedd glod i Gymru,
Daniel Davies, Aberteifi.

Rhoddes hwn ei hun yn foreu
Dan yr iau, gan wisgo'r arfau,
A mawrygu Grist yn uchel
Pan yn ieuanc yn Nhrewyddel.

Cario'r groes oedd iddo'n bleser,
Gweithio'n ngwinllan Crist bob amser,
Ac yn ieuanc cadd ei godi
I bregethu'r Ceidwad Iesu.

Yn mhen 'chydig iawn o amser
Daeth ei dalent i ddysgleirder,
Ac yn fuan ca'dd ei godi
'N fugail Crist yn Aberteifi.

Yno bu mewn clod a mawrfri,
Fwy na hanner cant o flwyddi,
Ac mewn parch gan wreng a bonedd,
Mwyfwy beunydd mewn anrhydedd.

'Roedd fel tad yn mysg ei bobol,
Porthai hwynt â'r manna nefol,
Galw'n daer ar blant afradlon
At y bwrdd a'r pasgedigion.

Gwelodd luoedd yn dychwelyd
Tua'r noddfa am eu bywyd,
Ac fe glywodd dorf yn gwaeddu
Am eu cadw'n nghlwyfau'r Iesu.

Eglwys fechan Aberteifi
Wnaeth yn gannoedd cyn ei gladdu,
A chanfyddodd bechaduriaid
Yn gwaeddu'n daer am gadw'u henaid.

Yn Llandudoch planodd Eglwys
Ddyga dyrfa i baradwys,
A cheir miloedd eto'n canu
Wedi glanio'n ngwlad goleuni.

'Roedd y wlad i gyd yn barchus,
Yn mawrygu Daniel Davies,
Am fucheddu mor rhinweddol,
A gweithio allan fywyd duwiol.

Mynych aeth i Gapel Drindod,
I gyhoeddi'r hedd a'r cymod,
Ac urddasol deulu'r Bronwydd
Ni ddystawant draethu ei glodydd.

Ei brif destun trwy'i holl yrfa
Ydoedd aberth pen Calfaria,
Dweyd am rinwedd gwaed yr Iesu
I gadw miloedd rhag trueni.

Ond gorphenodd yn ei fawrglod
Fel gwas cyflog ei ddiwrnod,
A'r hyn oedd farwol a llygredig
A roed yn mynwent fach y Ferwig

Ond ei enaid hedodd adre'
Fry i wlad y pêr ganiadau;
Ac a ddygwyd yn ddiogel
I dderbyn gwobrwy'n ymyl Gabriel.

Uno wnaeth â'r gweinidogion,
Aeth o'i flaen ar fynydd Seion,
Ac nid oes cân yn fwy sioniarus
Na mawl i Dduw gan Daniel Davies.